
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Coed Abergwynant, Afon Mawddach

**CYMEDROL**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 6km (3.7 milltir)
- Hyd: Oddeutu 2 awr
- Math o Daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20220323/1542





O’r maes parcio, dilynwch Lwybr Mawddach i gyfeiriad Abermaw gan fynd heibio’r toiledau. Croeswch y ffordd sy’n arwain at Bont Llynpenmaen, a cherddwch heibio Gwesty George III ar hyd y ffordd darmac. Yn fuan, bydd y ffordd yn troi’n drac. Dilynwch y trac hwn a mynd trwy’r giât.





Wedi i chi gerdded rhyw filltir o’r maes parcio, fe ddowch at fwrdd picnic a giât ar ochr chwith Llwybr Mawddach. Ewch trwy’r giât gan ddilyn y llwybr igam-ogam i fyny trwy Goed Abergwynant.




Mae’r llwybr yn arwain yn raddol i ben y bryn. Pan fydd y llwybr yn fforchio, trowch i’r dde i fynd at fwrdd picnic lle mae golygfa odidog i’w chael o aber yr afon Mawddach.





Dilynwch y llwybr yn ôl o’r bwrdd picnic gan fynd yn syth yn eich blaen wrth y fforch. Bydd y llwybr yn fforchio unwaith eto, cadwch i’r chwith y tro hwn a dringwch i fyny’r llwybr.





Cadwch i’r chwith wrth ymuno â llwybr arall. Dilynwch y llwybr i lawr drwy’r coed gan gymryd gofal, yn enwedig pan fo’r ddaear yn wlyb dan draed. Byddwch yn mynd heibio Neuadd Abergwynant ar y chwith.




Wrth i’r llwybr fynd yn fwy gwastad, byddwch yn cerdded ar hyd ymyl afon Gwynant. Cadwch lygad am yr hen odyn galch ar y chwith ger yr afon.




Ar ôl mynd heibio’r odyn galch, cadwch i’r dde wrth y fforch gan ddilyn y llwybr cul i fyny’r bryn.





Wrth i’r llwybr ailymuno â’r trac, trowch i’r dde a dilynwch y trac gan fynd heibio’r hen felin lifio.




Wedi i chi fynd heibio’r sied, dilynwch y llwybr i’r chwith cyn cyrraedd y giât o’ch blaen.

10



Pan fydd y llwybr yn fforchio, dilynwch y llwybr i'r chwith, yna trowch i'r dde pan ddaw'r fforch nesaf. Dilynwch y llwybr yn ôl i lawr at Lwybr Mawddach.

11



Pan gyrhaeddwch Lwybr Mawddach, trowch i'r dde a cherddwch yn ôl am y maes parcio.